YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

22.10.2021

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr,

Ar ddiwedd hanner tymor sydd wedi bod yn un hynod o brysur, hoffwn gymryd y cyfle hyn unwaith eto i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Hoffwn ofyn am eich cefnogaeth gyda'r canlynol wrth i ni groesawu dysgwyr yn ôl i'r ysgol yn dilyn hanner tymor:

**Gwisg Ysgol**

Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel gan gynnwys safonau gwisg. Disgwylir i bob dysgwr gwrdd â'r disgwyliadau hyn er mwyn dathlu ethos ac hunaniaeth yr ysgol. Atgoffir chi o bolisi'r ysgol (manylion i'w cael yma https://www.yggllangynwyd.cymru/gwisg-ysgol/).

- **Dim gemwaith o gwbl yn CA3 a CA4 gan gynnwys clustdlysau / tlysau trwyn o unrhyw fath. Bydd y gemwaith yn mynd i'r brif swyddfa mewn amlen hyd diwedd y dydd. Caniateir un pâr o glustdlysau (studs) i ddysgwyr CA5**
- **Dim colur (gan gynnwys ewinedd / acrylics)**
- **Lliw gwallt naturiol gyda steil synhwyrol**
- **Dim trowsus tynn / leggings**
- **Sgertiau o hyd addas (hyd at y benglin)**
- **Esgidiau lledr (dim treinyrs / bŵts)**
- **Cot tywyll heb logo**

Mewn mân achosion lle nad yw dysgwr yn cwrdd â safonau gwisg yr ysgol bydd y Pennaeth Blwyddyn yn cysylltu â'r cartref er mwyn datrys y sefyllfa. Bydd y dysgwyr yn gweithio yn Llannerch hyd nes bydd y sgwrs wedi digwydd gyda'r rhiant.

**Gwisg Addysg Gorfforol**

Ar ddiwrnodau pan mae dysgwyr â gwers Addysg Gorfforol, rhaid iddynt ddod i'r ysgol *yng ngwisg addysg gorfforol swyddogol. Hwdis swyddogol yr ysgol yn unig a ganiateir*. Gofynnir iddynt ddod â'u gwisg ysgol i newid yn dilyn y wers mewn achos o dywydd garw. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ar hap yn ystod yr hanner tymor rhag ofn bod unigolion yn cymryd mantais o'r sefyllfa gan ddod i'r ysgol mewn gwisg Addysg Gorfforol ar ddiwrnod pan nad oes ganddynt wers.

**Ffug Arholiadau**

O'r 30ain o Dachwedd ymlaen bydd Blwyddyn 11 – 13 gyda chyfnod ffug arholiadau am bythefnos. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth wrth baratoi'r dysgwyr ar gyfer y cyfnod yma trwy eu hannog i adolygu a dod â'r offer cywir i bob arholiad.

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

**Ffonau Symudol**
Os yw eich plentyn yn dod i'r ysgol gyda ffôn symudol gofynnwn i'r plentyn fynd â'r ffôn draw i Llannerch erbyn 8:40yb. Bydd aelod o staff y brif swyddfa yn cadw'r ffonau dan glo trwy'r dydd. Bydd y dysgwr yn casglu'r ffôn o Llannerch ar ddiwedd y dydd. Caniateir ffonau symudol ar gyfer dysgwyr CA5 yn eu hardaloedd penodedig yn unig – ni ddylid fod ar ffôn wrth gerdded o amgylch yr ysgol na chwaith mewn gwersi.

**Trefnydd Dysgwr**
Er mwyn sicrhau cyswllt cyson rhwng yr ysgol a'r cartref, ar gyfer dysgwyr CA3 a 4 gofynnwn yn garedig i chi wirio ac arwyddo trefnydd eich plentyn yn wythnosol.

Diolch yn fawr eto am eich cyd-weithrediad a dymunwn wyliau hanner tymor iachus a llawen i chi. Edrychwn ymlaen at hanner tymor llwyddiannus arall yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

Cofion,

Mrs Lisa Woodrow
Pennaeth yr Ysgol